



Gwasanaeth Effeithiolrwydd a
Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru

Regional School Effectiveness &
Improvement Service for North Wales

Bwletin GwE

Prosiect Rhanbarthol Shirley Clarke ★NEWYDD★

TIMAU YMCHWIL GWEITHREDOL ASESU FFURFIANNOL

Mae lle i hyd at 200 o ysgolion y rhanbarth i ymuno â haen 2 y prosiect cyffrous hwn ar gyfer 2018-2019.

Y bwriad yw bod pob ysgol ar draws y rhanbarth yn rhan o'r prosiect erbyn 2019-2020.

Manylion llawn i'w cael [yma](#).

Cyfleoedd gyda GwE

Cydlynnydd Y Llwybr Dysgu i Gymorthyddion Dysgu – LIWDC

CYFLE RHAN AMSER [0.6] I YMARFERYDD PROFFESIYNOL SYDD Â PHROFIAD PERTHNASOL MEWN ARWAIN AC SY'N GWEITHIO'N EFFEITHIOL MEWN TÎM, I HELPU DDATBLYGU A GWEITHREDU'R LLWYBR DYSGU PROFFESIYNOL CENEDLAETHOL I CYMORTHYDDION DYSGU AR DRAWS Y RHANBARTH.

Secondiad ar delerau ac amodau gwaith presennol – rhaid i'r Corff Llywodraethu gytuno ar hyn cyn i chi ymgeisio.

[Cliciwch yma](#) am gopi o'r hysbyseb.

Am sgwrs anffurfiol cysylltwch â **Stephanie Cartmel** ar **07557 759836** neu e-bost stephaniecartmel@gwegogledd.cymru

Gwahoddir ceisiadau trwy lythyr gan gynnwys CV erbyn **10:00 O'R GLOCH, DYDD IAU, 17 MAI 2018** drwy law

anwengwilym@gwegogledd.cymru

Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol 2018

Datganiad y Pennaeth ar gyfer Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol 2018

★NEWYDD★

Pan fydd prawf olaf y cylch profion wedi'i weinyddu, rhaid i'r pennaeth lofnodi a chyflwyno datganiad i

profion@gwegogledd.cymru

[Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth.

Sesiynau Marcio Cefnogol Cynradd – Ymresymu Rhifyddol

Bydd GwE yn cynnig cefnogaeth i ysgolion cynradd gyda marcio'r prawf Rhifedd (Ymresymu) eto eleni. Cynhelir y sesiynau ar draws y rhanbarth rhwng y 9fed a'r 16eg o Fai. [Cliciwch yma am ragor o wybodaeth.](#)

Llongyfarchiadau

Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru 2018 ★NEWYDD★

Ddydd Sul, 13 Mai 2018, fe anrhydeddwyd cyraeddiadau athrawon ym mhob cwr o'r wlad yn seremoni wobrwyo Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru, yng Nghastell Hensol, Bro Morgannwg.

Dymuna GwE longyfarch y rhai a enwebwyd, ac yn arbennig yr enillwyr.

[Cliciwch yma](#) i weld pwy ddaeth i'r brig yng nghonsortium GwE.

Enillwyr Cystadleuaeth 'Hacio eich Cwprdd Dillad' ★NEWYDD★

Yn gynharach eleni, cynhaliwyd cystadleuaeth ar gyfer yr holl ysgolion a gymerodd ran yn 'Cracio'r Cod', menter gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y clybiau codio mewn ysgolion yng Nghymru. [Cliciwch yma](#) i ddarganfod mwy.

Cyfleoedd Hyfforddi Cynradd

Cyfarfod Rhwydwaith Llythrennedd a Rhifedd,

Tymor yr Haf ★NEWYDD★

Bydd Helen Bowen yn arwain ar ddatblygu Llefaredd, gan symud ymlaen o'r sesiwn cyntaf, a rhoi rhagor o arweiniad i Arweinwyr ar ddatblygu Llefaredd pwrpasol i gefnogi dysgu, meddwl a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm cyfan a bywyd yr ysgol.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion ac i gofrestru.

Cyfoethogi Mathemateg i Bawb [NRICH]

12 MEHEFIN 2018 – VENUE CYMRU

13 MEHEFIN 2018 – BEAUFORT PARK, YR WYDDGRUG

Bydd y rhaglen hon yn rhoi cyfle i athrawon CA2 gydweithio ar ystod o dasgau cyfoethog o wefan NRICH, ac edrych ar sut y gellir eu defnyddio gyda phob dysgwr i ddatblygu ffyrdd o weithio'n fathemategol.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).

Datblygu sgiliau o'r Meithrin i Flwyddyn 2 ar draws y meysydd dysgu yn yr Awyr Agored [AR GYFER CYMORTHYDDION]

GWEITHDY HANNER DIWRNOD AR GYFER CYMORTHYDDION CYFNOD SYLFAEN

- Beth yw 'dysgu yn yr awyr agored'?
- Arweiniad a syniadau am ffyrdd o ddatblygu sgiliau penodol (deilliannau 3 i 6) yn yr awyr agored, ar draws yr holl feysydd dysgu.
- Astudiaeth achos ar 'dysgu awyr agored effeithiol'.

[Cliciwch yma](#) am y dyddiadau a'r lleoliadau.

Hyfforddiant Talk4Writing

Dyma gyfle cyffrous i ysgolion y rhanbarth gael hyfforddiant swyddogol eto ar Talk4Writing:

- [Talk4Writing – Ysgrifennu Ffuglennol i'r Cyfnod Sylfaen](#)

DYDD LLUN, 21 MAI 2018 – VENUE CYMRU, LLANDUDNO

Edrychir ar sut i ddefnyddio Talk4Writing a'i roi ar waith yn ystafell ddosbarth y Cyfnod Sylfaen i ddatblygu ysgrifennu ffuglennol ar draws y Cwricwlwm.

[Cliciwch yma](#) i gofrestru.

- [Talk4Writing – Ysgrifennu Ffeithiol i CA2](#)
- DYDD MAWRTH, 22 MAI 2018 – VENUE CYMRU, LLANDUDNO

Edrychir ar sut i ddefnyddio Talk4Writing a'i roi ar waith yn ystafell ddosbarth CA2 i ddatblygu ysgrifennu ffeithiol ar draws y cwricwlwm.

Cyfleoedd Hyfforddi Uwchradd

Cynlluniau Gwaith CA3 a'r Datblygiadau Newydd

DYDD MERCHER, 6 MEHEFIN 2018 – GLASDIR, LLANRWST
Sesiwn diwrnod llawn i Benaethiaid Adrannau Cymraeg ar lunio Cynlluniau Gwaith yn y cyfnod pontio rhwng diwallu anghenion y cwricwlwm a'r manylebau presennol, a'r cynlluniau i'r dyfodol.

Bydd enghraifft o waith un o'r ysgolion arloesi a chyfle i weithio ar unedau gwaith ar y cyd dan arweiniad.

Cofrestrwch drwy gysylltu ag

: eirianharris@gwegogledd.cymru

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â :

rhianmairjones@gwegogledd.cymru

*****DYDDIAD I'CH

DYDDIADUR*****

Cynhadledd Uwchradd – Arwain

Addysgu a Dysgu

DYDD MAWRTH, 3 GORFFENNAF 2018 – MANYLION COFRESTRU I DDILYN

Cyfleoedd Hyfforddi Eraill

Gweithdy Tymor yr Haf ar gyfer Penaethiaid Newydd neu Benaethiaid

Dros Dro ★NEWYDD★

DYDD IAU, 24 MAI 2018 – 09:00-16:00 – OPTIC, LLANELWY

Gweithdy Tymor yr Haf dan arweiniad Dave Harris, sy'n uchel ei barch, yn Gyfarwyddwr *Independent Thinking* ac yn arweinydd cenedlaethol a berchir ym maes rheoli addysg.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion ac i gofrestru.

Gweithdai "Cynllunio, Gwneud, Adolygu"

DYDD MAWRTH, 5 MEHEFIN 2018

Y Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) yw'r llwyfan pennaf ar gyfer eich dysgu proffesiynol. Wedi'i lansio gan Lywodraeth Cymru (drwy CGA) fel e-bortffolio cenedlaethol wedi'i safoni, gellir ei ddefnyddio i gofnodi a myfyrio ar eich datblygiad proffesiynol.

Bydd y sesiwn hon, a ddarperir gan y CGA ac sy'n agored i holl ymarferwyr, yn dangos i chi sut i ddatblygu portffolio yn gyflym ac yn rhwydd.

Am ragor o wybodaeth, i gofrestru ac am restr o leoliadau, [cliciwch yma](#).

[Cliciwch yma](#) i gofrestru.

Asesu ar gyfer Dysgu: Gweithio'n ddoethach, nid yn galetach – Gareth

Coombes

Hyfforddiant ar gyfer holl Benaethiaid neu Arweinwyr Dysgu Ysgolion y Rhanbarth

Lle i un cynrychiolydd o bob ysgol

Arweiniad ar sicrhau defnydd effeithiol a chyson o

Asesu ar gyfer Dysgu drwy'r ysgol.

Rhagor o fanylion ar gael [yma](#).

Cymhwysedd Digidol

[Cliciwch yma](#) i weld yr holl gyrsiau sydd ar gael.

Mae'n bosib cofrestru ar gyrsiau sydd yn cael eu cynnal o rŵan hyd at ddiwedd Gorffennaf 2018.

Caru Dysgu Drwy Ffilm

DYDD MAWRTH, 10 GORFFENNAF 2018 – GALERI, CAERNARFON

Dyma'r trydydd hyfforddiant fel rhan o bartneriaeth GwE ac Into Film Cymru. Bydd cyfle yn ystod y dydd i gyfarfod a dysgu mwy am waith llysgenhadon Into Film yng Ngogledd Cymru, ac enillwyr gwobrau cenedlaethol o'r rhanbarth. Cynhelir gweithdy animeiddio yn ystod y dydd.

[Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth ac i gofrestru.

Sesiynau Gwybodaeth CALU

Os oes gennych ddiddordeb mewn dilyn y cynllun CALU yn 2018-2019, dewch i un o'r sesiynau gwybodaeth ar gyfer cynorthwy-wyr dysgu a'u penaethiaid/rheolwyr, a gynhelir ar draws y rhanbarth rhwng 4 a 7 Mehefin 2018. Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth, yn cynnwys union ddyddiadau a lleoliadau'r Sesiynau Gwybodaeth.

Cracio'r Cod

[Cliciwch yma](#) i weld dyddiadau a lleoliadau'r hyfforddiant 'Cracio'r Cod' ble cewch gyfarwyddyd ac adnoddau ar gyfer cynnal Clwb Codio yn eich ysgol.

Cyfleoedd Datblygu Proffesiynol

Y Rhaglen Athrawon Graddedig

Mae'r Rhaglen Athrawon Graddedig (RhAG) yn llwybr wedi'i seilio ar gyflogaeth i mewn i addysgu yng Nghymru, sy'n cynnig ffordd i gymhwyso fel athro/athrawes tra byddwch yn gweithio.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).

Cynadleddau a Chyfleoedd gan Eraill

Cwrs Dysgu ar y Traeth – Cyfoeth Naturiol Cymru & Eni UK Ltd ★NEWYDD★

DYDD IAU, 7 MEHEFIN 2018 – YSTAFELL GWAITH MAES ENI A THRAETH TALACRE

Awydd defnyddio'r arfordir lleol gyda'ch dysgwyr fel adnodd naturiol i ddysgu ynddo, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer?

[Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth.

Cynhadledd Estyn – Arloesi'r Cwricwlwm mewn Ysgolion Cynradd

GLASDIR, LLANRWST – DYDD MAWRTH, 22 MAI 2018

Dysgwch sut mae ysgolion cynradd ac ysgolion pob oed wedi bod yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd trwy weithdai ar arfer effeithiol a chipolygon o arolygu.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).

Cyfleoedd Hyfforddi: Rhaglenni Blynnyddoedd Rhyfeddol a Gwrth-fwlio KiVa

★NEWYDD★

*** Rhaid i bob cyfranogwr fod wedi gwneud yr hyfforddiant tri diwrnod Dina yn y Dosbarth cyn mynychu'r hyfforddiant hwn ***

Mae'r holl Ymgynghoriadau Rhieni / Cyfarfodyd Goruchwylion yn agored i unrhyw un sydd wedi cael yr hyfforddiant SYLFAENOL yn y rhaglenni Incredible Years® ac sy'n cyflwyno neu'n bwriadu cyflwyno'r rhaglen. [Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Gweithdy STEM

DYDD MERCHER, 23 MAI 2018 – M SPARC, GAERWEN

Croeso i'r teulu oll!

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Cynhadledd Ranbarthol 2018 Sefydliad Arweinyddiaeth Busnes Ysgol

DYDD IAU, 7 MEHEFIN 2018 – THE QUAY HOTEL & SPA, DEGANWY, CONWY

Cynlluniwyd y digwyddiad hwn yn benodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes busnes ysgol a phenaethiaid yng Nghymru. Bydd hefyd anerchiad gan Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Defnyddiwch y cod **CM7m6Opn** i archebu eich lle am ddim, a chliciwch ar y **ddolen hon** am ragor o fanylion.

Digwyddiad a gynhelir gan Techniquet ar gyfer Ysgolion Cynradd:

- **Arweinyddiaeth Effeithiol mewn Gwyddoniaeth**

DYDDIAD WEDI NEWID

DYDD IAU A DYDD GWENER, 5 A 6 GORFFENAF 2018
CANOLFAN FUSNES CONWY, CONWY, LL31 9XX

Ceir rhagor o fanylion am y digwyddiad uchod ar ein gwefan drwy [glicio yma](#).

Cyfleoedd Allanol

Swyddog Effeithiolrwydd Ysgol

[Cynradd/Uwchradd] ★NEWYDD★

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Am wybodaeth ynglŷn â'r swydd, gweler y dolenni isod:

[SWYDD DDISGRIFIAD](#)

[FFURFLEN GAIS](#)

DYDDIAD CAU: DYDD GWENER, 25 MAI 2018

Am ragor o wybodaeth, [cliciwch yma](#)

Pennaeth Ysgol Bodhyfryd, Wrecsam

I gychwyn Ionawr 2019 (neu cyn hynny os yw'n bosibl)

[Cliciwch yma](#) am gopi o'r hysbyseb.

Am ragor o fanylion [cliciwch yma](#).

DYDDIAD CAU: DYDD MERCHER, 6 MEHEFIN 2018

Swyddog Effeithiolrwydd

Ysgol ★NEWYDD★

CYNGOR BWRDREISEF CONWY

Am wybodaeth ynglŷn â'r swydd, gweler y dolenni isod:

[HYSBYSEB SWYDD](#)

[SWYDD DDISGRIFIAD A MANYLION UNIGOLYN](#)

DYDDIAD CAU: DYDD LLUN, 28 MAI 2018

Am ragor o wybodaeth, [cliciwch yma](#).

Newyddion

Holiadur Arholiad Haf 2018

Mae Cymwysterau Cymru yn gwahodd dysgwyr ac unrhyw un sydd â diddordeb yn arholiadau'r Haf, i rannu eu barn drwy gwblhau holiadur byr ar-lein. Bydd yr holiadur ar agor o **8 Mai** tan **6 Gorffennaf**. [Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Plattform Hwb: Newidiadau i Drefniadau Mynediad

Mae Llywodraeth Cymru wedi newid y ffordd y mae ysgolion yn darparu mynediad i borth addysg Hwb a'r amgylchedd dysgu a reolir (y Plattform Hwb) i'w staff a'u dysgwyr. Mae eglurhad o'r newidiadau hynny a'r hyn y mae angen i chi ei wneud nesaf ar gael [yma](#).

Iaith yn y Gwaith yng Ngogledd Cymru

Mae **adroddiad newydd** ar sefyllfa'r iaith Gymraeg yng Ngogledd Cymru wedi ei lansio wythnos diwethaf, gyda chyfraniad gan GwE ac Esyllt Maelor yn rhoi cyflwyniad ar strategaeth GwE.

[Cliciwch yma](#) i ddarllen mwy.

Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter

Rydych yn derbyn yr e-bost yma gan eich bod wedi tanystrifio i dderbyn Bwletin wythnosol GwE.
I ddatdanysgrifio, anfonwch e-bost at bwletin@gwegogledd.cymru yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.



Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan

